# Y Dinesydd

Hydref 2012 Rhif 371 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## Taith Clawdd Offa – Apêl Guatemala

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ceisio codi £250,000 eleni at ymgyrch arbennig gan Cymorth Cristnogol i roi cymorth i'r tlodion yn Guatemala. Mae'r angen yn fawr yno gan fod dros hanner y plant dan bump oed yn dioddef o ddiffyg maeth difrifol.

I hybu'r apêl yma penderfynodd John Rowlands, sy'n flaenor yn Eglwys y Crwys, y byddai'n cerdded yr holl ffordd ar hyd Clawdd Offa mewn 12 diwrnod. Mae'r Clawdd yn ymestyn am 177 o filltiroedd o lan Afon Hafren yn y De i Brestatyn yn y Gogledd ac yn cynnwys ardaloedd mynyddig a bryniog iawn yn ogystal â chymoedd a dyffrynnoedd.



Gorffennodd John ei daith noddedig yn llwyddiannus ddydd Mercher y 19 o Fedi ac roedd yna griw da wedi dod i'r te croeso a drefnwyd iddo yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn. Nid yw'n rhy hwyr i chi gefnogi'r ymdrech hon. Bydd eich rhodd yn helpu llawer o'r plant tlotaf a'u teuluoedd a byddwch hefyd yn cynorthwyo i arbed bywydau.

Gallwch noddi taith John drwy siec neu dros y we yn www.justgiving.com/johnmrowlands

Anfonwch eich siec (taladwy i Eglwys Bresbyteraidd Cymru) i Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Caerdydd CF14 1DD gan farcio Viva Guatemala – Taith John Rowlands arnynt.

## Derbyniadau i Ysgolion Cynradd

**Mae'n bwysig i rieni a gofalwyr plant yng Nghaerdydd a fydd yn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi 2013 gofio cofrestru eu hysgol ddewis gyda'r Cyngor.**

Bydd rhieni sydd â phlant a aned rhwng 1 Medi 2008 a 31 Awst 2009 ac sydd eisoes wedi rhoi manylion eu plant i'r Cyngor yn cael ffurflenni dewis ym mis Hydref er mwyn iddynt gofrestru eu hysgolion cynradd dewis. Bydd y rhan fwyaf o rieni'n ymwybodol o'r ysgolion lleol yn eu hardal a pha un y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, ond mae'n rhaid i rieni gwblhau a dychwelyd y ffurflen dewis a fydd yn cael ei dosbarthu fis nesaf.

Y dyddiad cau i ffurflenni dewis ar gyfer pob cais am le mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyrraedd yw dydd Llun 3 Rhagfyr. Os na fydd rhieni'n cyflwyno'u ffurflenni erbyn y dyddiad hwn, ni chaiff eu cais ei ystyried yn ystod rownd gyntaf y broses.

Mae tair ffordd hawdd o sicrhau y byddwch yn cael ffurflen dewis – ffonio'r Swyddfa Derbyniadau ar 029 2087 3816, e-bostio enw, cyfeiriad a dyddiad geni eich plentyn i derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennu at yr adran Derbyn i Ysgolion, Gwasanaeth Addysg, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW.

Am y tro cyntaf yng Nghaerdydd, bydd rhieni hefyd yn cael cyfle i gyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio Gwasanaeth Ceisiadau ar-lein y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk

## MERCHED Y WAWR CAERDYDD



Aelodau o Gangen Merched y Wawr Caerdydd gyda Gill Griffiths y Llywydd Cenedlaethol ar ôl cyflwyniad Merched y Wawr yn Eisteddfod Bro Morgannwg ym mis Awst.

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Sian Parry-Jones**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Gwynn Matthews**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn 27 Hydref i:
Derwen Deg, 2 Restways Close,
Llandaf, Caerdydd CF5 2SB
Ffôn: 02920 562880
e.g.matthews@btinternet.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# CANGEN MERCHED Y WAWR RADUR

Nos Fercher Medi'r 5ed oedd noson agoriadol y gangen. 'Roedd neuadd y Capel Methodist yn llawn gyda hanner cant o aelodau yn cynnwys saith aelod newydd. Croesawyd ni gan Lywydd y Gangen, Carys Tudor Williams a atgoffodd ni am lwyddiant a mwyniant Eisteddfod y Fro eleni. Paratowyd llwythi o bice mân ym mhabell M.Y.W. a rhoddwyd cyflwyniad y rhanbarth ar lwyfan mawr y pafiliwn.

Y siaradwr gwadd oedd Dr Eurwyn Wiliam a roddodd hanes diddorol sefydlu cwmni cydweithredol gan y Crynwyr ym Mrynmawr yn 1930. Eu bwriad oedd creu gwaith i fechgyn i ateb y gofyn am ddodrefn i'r 4 miliwn o dai a godwyd ar stadau a maestrefi ers y rhyfel byd cyntaf. 'Roedd y cwmni yn arloesol o ran marchnata ac yn cynnal arddangosfeydd o gelfi Brynmawr yn Llundain a siop David Morgan yng Nghaerdydd, lle cafwyd yr arddangosfa olaf. Mae'r celfi yn para yn gasgladwy a cheir enghreifftiau yn Amgueddfa Brynmawr .'Roedd cyflwyniad ac arbenigedd Dr Wiliam yn gofiadwy.

# *Llongyfarchiadau Ken!*

Cafodd Ken Passmore ei eni a'i fagu yng Ngogledd Cymru, ond wedi byw ers blynyddoedd yn y De, nawr yn Radur. Mae ei wraig Anne a'u plant Geraint a Catrin yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd, ond dyw Ken ddim - hyd yma beth bynnag.

Tua phedair blynedd yn ôl penderfynodd Ken ddysgu Cymraeg. Aeth i Ganolfan Garth Olwg i ddilyn cwrs dwys. Mae'n awyddus iawn i siarad Cymraeg ac wedi gwneud llawer o waith at hynny.

Roedd gan Ken ddathliad dwbl eleni yn y Genedlaethol. Yn gyntaf, ar y Dydd Sadwrn cyntaf roedd seremoni ym Maes D i anrhydeddu'r sawl a oedd wedi pasio eu harholiadau. Roedd teulu Ken yno i'w weld yn derbyn ei dystysgrif am basio CBAC safon Uwch gyda gradd A. Yn ail, ysgrifennodd e ddarn dan y teitl 'Dathlu' yng nghystadleuaeth y Tlws Rhyddiaith; daeth Ken yn ail. Ym mis Rhagfyr 2011 cafodd e lawdriniaeth ddwys ar ei galon (dargyfeiriad triphlyg); hynny oedd testun ei ysgrif.

Yn ôl Bethan Gwanas, wrth sôn am waith Calon Lân, 'Darn a wnaeth fy nghyffwrdd. Ymson dyn sy'n dod dros lawdriniaeth ar y galon. Mae ei hiwmor a'i hapusrwydd yn treiddio drwy'r cyfan ac mae wedi ysgrifennu'n hyfryd o syml ac effeithiol'. Ac wrth gloriannu'r gystadleuaeth, 'Wedi hir bendroni, y ffuglen sy'n mynd â hi. Am ddarn llawn dychymyg ac emosiwn a Chymraeg sy'n destun dathlu, rhoddaf y wobr i Tristan, gyda Calon Lân yn dynn wrth ei sodlau.'

Ardderchog Ken. Dyn ni'n browd iawn ohonot ti. Dysgwr y Flwyddyn yn Ninbych 2013!

***Dy ffrindiau o'r dosbarth***

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# TÂL GYFARTAL AM WAITH CYFARTAL

Pur anaml y ceir cytundeb llwyr rhwng pleidiau gwleidyddol. Ond mae yna un peth y mae gwleidyddion o bob plaid ym Mae Caerdydd yn gwbl gytûn yn ei gylch, sef fod cynllun arfaethedig y Trysorlys i gyflwyno tâl rhanbarthol yn y sector cyhoeddus yn hynod wallus. Prif ddadl y Trysorlys yw bod cyflogau sector cyhoeddus mewn 'rhanbarthau' cymharol dlawd fel Cymru yn sylweddol uwch na'r cyflogau y gallai cyflogwyr preifat fforddio i dalu i'w gweithwyr, a bod hyn yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth yn y sector breifat. Ond yn ôl Prif Economegydd y Cynulliad nid oes unrhyw dystiolaeth fod cyflogwyr preifat yng Nghymru yn cael trafferth i ddod o hyd i weithwyr.

Mae cytundeb hefyd ymhlith gwleidyddion yn y Cynulliad y dylai gweithwyr dderbyn tâl cyfartal am waith cyfartal. Er bod hynny'n swnio'n deg, pan sonnir am gyflog cyfartal rhaid ystyried nid yn unig faint o bunnoedd sydd mewn pecyn cyflog ond hefyd beth y gellid ei brynu gyda'r punnoedd hynny. A chan fod costau byw yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd o fewn y DU go brin y gellid dadlau bod y drefn bresennol yn un teg. Dengys gwaith ymchwil gan yr Athro Carol Propper o Brifysgol Bryste fod yr awdurdodau mewn ardaloedd costau uwch yn gorfod dibynnu ar asiantaethau cyflenwi i ddod o hyd i athrawon, nyrsys ac ati, ac yn gorfod gor-ddyrchafu gweithwyr parhaol er mwyn ceisio'u cadw. Hynny'n cael effaith andwyol ar ganlyniadau TGAU plant ysgol ac yn arwain at gyfraddau marwolaeth uwch mewn ysbytai.

Mi fyddai cyflwyno tâl rhanbarthol yn gam tuag at unioni anghyfiawnderau o'r fath ond mi fyddai hefyd yn tynnu arian allan o economïau rhai o'r ardaloedd tlotaf y DU. Os bydd George Osborne yn penderfynu bwrw ymlaen i ddiwygio trefn gyflogau y sector gyhoeddus dylid sicrhau bod Cymru'n cael ei digolledu am y colledion ariannol a ddaw yn sgil hynny.

***Roy Thomas***

# Cymreictod Llys-faen

Ar ddechrau'r ganrif ddwetha 'roedd pentref ac ardal Llys-faen yn Gymreig iawn gyda llawer o ffermwyr yr ardal yn Gymry Cymraeg. Yn wir, yn ôl cyfrifiad 1911 roed 80 o blant Cymraeg eu hiaith yn yr ysgol leol yn cael rhan o'u haddysg, yn answyddogol, trwy gyfrwng y Gymraeg. Hyfryd yw gweld arwyddair yr ysgol "Cyntaf â'i og - cyntaf â'i gryman" ar yr hen adeilad o hyd.

Roedd gan y Bedyddwyr gapel Cymraeg, gyda'i weinidog ei hun, ar y ffordd i Rydri. Yn raddol trodd yr oedfaon i fod yn Saesneg eu hiaith. Ond yn yr 80au penderfynwyd sefydlu Oedfa Gymraeg anenwadol i'w chynnal yn fisol yn y "Capel Bach". Cafwyd llawer o frwdfrydedd ac ar yr un amser roedd tua 30 o aelodau ffyddlon yn mynychu'r oedfaon. Cawsom wasanaeth parod nifer fawr o weinidogion a lleygwyr y ddinas yn ein cyfarfodydd ar yr ail Sul o bob mis, a chyfle i gymdeithasu dros baned a chacen.

Daeth yr achos Saesneg i ben, a gwerthyd yr adeilad i'w droi'n dy annedd. Symudwyd y gwasanaeth Cymraeg i Eglwys St Denis (gyferbyn â thafarn y Griffin) ynghanol y pentre. Yn anffodus mae nifer y gynulleidfa wedi lleihau dros y blynyddoedd, a bellach dim ond rhyw 8 neu 9 sy'n mynychu'r gwasanaeth. Ofnir na fydd modd parhau yn hir iawn, a dyna fydd diwedd unrhyw gymdeithasu Cymraeg yn Llys-faen.

Trist fydd gweld diwedd ar gymdeithasu Cymraeg yn yr ardal yng ngwyneb y twf sylweddol mewn addysg Gymraeg. Beth am ymuno â ni ambell dro yn ein gwasanaeth am 4 o'r gloch ar yr ail Sul o'r mis? Cewch groeso twymgalon i'n plith. Os am fanylion ffoniwch 029 2075 4559 a chael gair gyda John neu Tegwen.

## *Cydymdeimlir â*

- theulu y diweddar DI Irfon Evans, Llandaf, a fu farw ar y 8 Medi.
- theulu y diweddar Selwyn Jones, Rhiwbeina, a fu farw yn ei gwsg ar 12 Medi.

# Taith Barry Chamberlain

Yn rhifyn mis Medi o'r Dinesydd, soniwyd am ddiwedd ras gychod unigryw, ac am un o'r morwyr dewr a fentrodd ar y siwrne, sef Barry Chamberlain. Penderfynodd Barry gymryd rhan yn y ras i godi arian i Apêl Arch Noa er cof am ei ddiweddar wraig, Beca (Walter-Jones). Diolch i haelioni nifer o noddwyr, llwyddodd i godi dros £7,000.

Apêl Arch Noa yw elusen swyddogol Ysbyty Plant Cymru. Mae'r elusen yn ariannu prosiectau pwysig sy'n sicrhau fod plant yng Nghymru yn gallu elwa ar y ddarpariaeth orau bosib, ac yn derbyn y driniaeth ddiweddara. Erbyn hyn, mae gwaith datblygu ail gymal yr ysbyty wedi cychwyn, a'r nod yw casglu £7 miliwn er mwyn ehangu a gwella'r cyfleusterau, a darparu gwasanaeth heb ei ail. Cewch fwy o wybodaeth am yr elusen ar wefan

**www.noah's-ark-appeal.org**


## DIWRNOD ASTUDIO HANES CYMRU

Pum darlith yn cynnwys -
Hanes y Mudiad Llafur yng Nghymru
Enwogion o Hanes Cymru

**DYDD SADWRN 3 TACHWEDD**
**10.00 tan 3.30**
**CANOLFAN SOAR, MERTHYR TUDFUL**

I gofrestru ac am fanylion pellach
**sionapglyn@merthyrtudful.org**
**01685 722176**

menter@caerdydd.org
Ffon: 029 20689888

menter caerdydd

# Caerdydd

### Cyfarfod Blynyddol Menter Caerdydd

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Fenter yn ein swyddfa yn Llanisien Nos Iau, Tachwedd 15 am 7pm. Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch **celia@mentercaerdydd.org** neu ffoniwch 029 2068 9888

### Fi a Fy Mabi

Yn dilyn llwyddiant cwrs 'Fi a fy Mabi' cyn yr Haf, rydym yn cynnig cwrs newydd wythnos i fenywod beichiog. Bydd y cwrs, sy'n cael ei gynnal yn Chapter, yn dechrau Nos Iau, Hydref y 18fed am 7pm. Bydd cyfleodd i gyfarfod a darpar famau eraill a dysgu am dechnegau aromatherapi, yoga a chael cyngor gan ddietegydd a bydwraig. £20 yw pris y cwrs, ac mae modd cofrestru trwy'r wefan. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch **marirhys@mentercaerdydd.org**

### Cwis

Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia, Nos Sul, Hydref 28 am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. £1 yr un i gymryd rhan.

### Amser Stori

Rydym yn cynnal 3 sesiwn Amser Stori wythnosol mewn llyfrgelloedd y tymor hwn. Mae'r sesiynau stori, crefft a chn i blant 0—4 oed a'u rhieni.

Mae'r sesiynau hwyliog, sydd yn rhad am ddim, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg mewn partneriaeth rhwng y Fenter a gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Caerdydd. Beth am alw mewn i'n gweld yn un o'r llyfrgelloedd canlynol:

Dydd Mawrth - Llyfrgell Treganna / 10.30am
Dydd Mawrth - Llyfrgell Penylan / 2.15pm
Dydd Mercher - Llyfrgell Yr Eglwys Newydd / 2.15pm

### Gweithdy Coginio Gwinllan Llannerch

Beth am gofrestru ar un o'n gweithdai coginio yn lleoliad hyfryd Gwinllan Llannerch yn y Fro yn ystod mis Tachwedd? Yn ystod y gweithdy byddwch yn paratoi tapas Cymreig dan arweiniad Sian Basset Roberts. Pris y cwrs yw £50 sy'n cynnwys cynhwysion a gwydraid o win. Mae dewis o ddau ddyddiad: Dydd Sul, Tachwedd 11 neu Dydd Sul Tachwedd 24 rhwng 2pm- 4.30pm. I gofrestru, neu am fwy o wybodaeth, ewch i wefan y Fenter neu cysylltwch ag **aweldavies@mentercaerdydd.org**.

### Clonc yn y Cwtsh

Wyt ti'n dysgu Cymraeg? Dere i *Clonc yn y Cwtsh* – sesiwn sgwrsio newydd wythnosol i ddysgwyr sy'n cyfarfod yn y Cwtsh yn Chapter (wrth y fynedfa gefn). Cyfle perffaith i ymarfer dy Gymraeg gyda dysgwyr eraill. Croeso i bawb! Dechrau Nos Lun, Hydref yr 8fed, rhwng 6.30pm – 8pm. Am fanylion, cysylltwch **llinoswilliams@mentercaerdydd.org**


### Cynlluniau Gofal

Bydd y Fenter yn cynnal Cynllun Gofal newydd yn Ysgol Pencae yn ystod hanner tymor yr Hydref. Gan nad yw Ysgol Melin Gruffydd ar gael oherwydd gwaith adeiladu, rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Richard Thomas yn Ysgol Pencae am gytuno i adael i ni gynnal ein gwasanaeth gofal gwyliau o'r safle. Bydd y cynllun gofal ar agor ym Mhencae, ac yn Ysgol Treganna drwy'r wythnos - Dydd Llun, Hydref 29 i Ddydd Gwener, Tachwedd 2, rhwng 8.30am a 5.30pm. Cost cofrestru yw £17 y diwrnod. Mae'n rhaid cofrestru o flaen llaw ar ein gwefan - **mentercaerdydd.org**, neu cysylltwch gyda **marirhys@mentercaerdydd.org**.

### Gweithgareddau Ieuenctid yn ystod Hanner Tymor

Bydd CLWB ar agor yn Ysgol Glantaf ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 am ddeuddydd yn ystod hanner tymor yr Hydref. Mae croeso i bobl ifanc alw mewn unrhyw bryd rhwng 10.30am a 2.30pm Dydd Mawrth, Hydref 30 a Dydd Mercher, Hydref 31. Bydd cyfle i ymlacio yn ardal y bistro, cymryd rhan mewn gweithdy roc, cael tattoo ffug a llawer mwy! Mae CLWB am ddim, a does dim angen cofrestru o flaen llaw - dim ond troi lan ac arwyddo mewn!

Bydd cyfle hefyd i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 i gofrestru ar daith Paintball, Dydd Iau, Tachwedd y 1af – bydd mwy o wybodaeth ar ein gwefan yn fuan!



Mae dros 120 o bobl wedi cofrestru ar un o'r cyrsiau oedolion sydd wedi dechrau ym mis Medi. Dyma rai o'r criw Sbaeneg yn Ysgol Plasmawr.

# Colofn G.R.

Rhwng pawb a phopeth bu'r Haf yn gyfnod prysur dros ben ac er gwaethaf y tywydd symol odd na fwrlwm yn cyniwair drwy'r wlad a'r torfeydd yn cefnogi pob math o weithgareddau. Bellach mae'r Haf ar ben a phawb yn ôl yn y tresi ac yn edrych ymlaen at dymor llawn arall fydd yn dod i ben hefo dathliadau'r Nadolig.

Mae'r Chwaraeon Olympaidd a Phara Olympaidd wedi hen basio erbyn hyn ond mae pawb yn gytûn eu bod wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Gwnaeth ein hathletwyr yn y ddau ddigwyddiad hyn yn arbennig o dda ac ystyried ein bod yn Wlad mor fychan a rhaid estyn ein llongyfarchiadau i'r enillwyr a phob cystadleuydd arall a geisiodd ei orau glas i gyrraedd y brig.

Tra'n sôn am chwaraeon mae'r tymor pêl droed a rygbi wedi ail ddechrau ond yn anffodus dechrau gwael a gafodd ein tîm pêl droed Cenedlaethol gan iddyn nhw golli 2-0 yn erbyn Gwlad Belg yn ein Stadiwm Bêl droed. Siom hefyd a gafodd Gleision Rygbi Caerdydd pan ddychwelon nhw i'w hen gartre ym Mharc yr Arfau ar ôl rhannu maes hefo'r Adar Gleision yn Lecwydd am dair blynedd gan iddyn nhw golli yn erbyn Caeredin! Ond gwelwyd seren addawol o stabl Ysgol Gyfun Glantaf yn camu ar y cae yn ystod y gêm sef Rhys Patchell. Pob llwyddiant iddo'r tymor hwn.

Pen-blwydd Hapus i'n Sianel Deledu gan fod S4C yn dathlu deng mlynedd ar hugain eleni ers ei sefydlu. Er gwell er gwaeth mae'r Sianel wedi ceisio ein diddanu drwy'r iaith ar hyd y blynyddoedd a'n gobaith ydy bydd y sianel yn dal mewn bodolaeth am flynyddoedd i ddod a llwyddo i fynd o nerth i nerth er gwaethaf yr anawsterau.

Pen-blwydd Hapus hefyd i Gymdeithas yr Iaith sy'n dathlu hanner can mlynedd ers ei sefydlu. Mae'r Gymdeithas wedi procio a bod yn ddraenen yn ystlys yr awdurdodau ers ei sefydlu ac wedi ysbarduno'r genedl i sefyll dros yr iaith er gwaethaf difrawder llawer o'n cydgenedl. Mae'r Gymraeg yn weladwy ymhob rhan o'n wlad bellach ond dydy'r perygl i'w dyfodol ddim drosodd o bell ffordd fel y dangoswyd yn achos Jamie Bevan Merthyr Tudful tra odd o yn garcharor yng Nghaerdydd dros yr iaith. Yn anffodus bydd digon o waith i'n Comisiynydd Iaith am flynyddoedd i amddiffyn ein hawliau fel Cymry Cymraeg.

## Newid Cyfeiriad

**Mae Cyfarwyddwr cyntaf Gwersyll yr Urdd ym Mae Caerdydd ers 2004, Alun Owens, gynt o Dreffynnon, wedi newid cyfeiriad ei fywyd a bellach mae'n dilyn cwrs i raddedigion ym Mhrifysgol Abertawe iddo fod yn feddyg. Roedd Alun hefyd yn Gadeirydd grŵp y Waterfront Partners, sef partneriaeth o fusnesau ym maes twristiaeth a hamdden yn y Bae, am sawl blwyddyn, ac mae ei holl ffrindiau yng Nghaerdydd yn dymuno'n dda iddo yn ei yrfa newydd gan ddiolch iddo am ei holl waith yn hybu'r Cymraeg ymhlith ieuenctid Caerdydd a Chymru.**

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd Hydref 2012

Gyda golwg ar y pryder o ddewis anrhegion Nadolig dyma gyngor. Prynwch ddau lyfr.

Yn gyntaf, **Tywod a Sglodion** gan Euryn Ogwen Williams (Gwasg Gomer). Yn ôl y broliant, 'Ceir yma gerddi o fawl, dychan a thristwch, ynghyd â mynegiant gonest….'. A'm ffefrynnau i? Y rhai â chyffyrddiadau gwyddonol, wrth gwrs, megis Hadron (y peiriant enfawr yn Genefa), Y Neges (Marconi ac Ynys Echni), Tyllau Duon (Y Cosmos), Ust! (eglureb electronig ynghylch crefydd).

Yn ail, **Mae Pawb yn Cyfrif** gan Gareth Ffowc Roberts (Gwasg Gomer). Am deitl! Yn ôl y broliant, 'Nid oes gan fathemateg le naturiol yn y diwylliant Cymreig ... Ond bydd y gyfrol hon….'. Llyfr difyr ei gynnwys, hwylus ei arddull, nad oes angen ar y darllenydd afael ar fathemateg ddwys i'w werthfawrogi. Mae'n cyflwyno hanesion diddorol ac yn cynnig posau (gyda'r atebion yn y cefn). Wyddwn i ddim bod un meuryn yn y Babell Lên yn gosod pos ar ffurf englyn, er enghraifft:

Afalau – wyth o filoedd, a deugain
A deg yna ydoedd;
Ugeinwaith naw o gannoedd;
Solfia, lu, sawl afal oedd?

Am ragor o wybodaeth am y gymdeithas ewch at ein gwefan www.cymdeithaswyddonolcaerdydd.org/

***Neville Evans*** (0791 325 7371)

S4/C
Calon Cenedl
ers 30 mlynedd

Rhaglenni arbennig i ddathlu pen-blwydd S4C

S4C yn 30
Atgofion y gwylwyr a chlipiau o'r archif ers dechrau S4C ar 1 Tachwedd 1982

Plant y Sianel
Hanes cenhedlaeth o Gymry gafodd eu geni 30 mlynedd yn ôl

Gwynfor
Drama ddogfen am flwyddyn dyngedfennol ym mywyd Gwynfor Evans ac yn ymgyrch y Sianel

Dechrau Canu Dechrau Canmol
Cymanfa i ddathlu'r pen-blwydd

30

# Ôl-Lwybrau

## Teg edrych tuag adre

*"Teg edrych tuag adre"* ac adre i mi oedd fferm Penllwynteg, Mynydd y Garreg, ger Cydweli yn Sir Gaerfyrddin. Yno cefais fy magu yn harddwch y wlad o gwmpas. O glos y fferm edrychem draw ar bentrefi glofaol Carwe a Trimsaran a nifer fawr o ffermydd, ac yn eu plith, Pwllygod, Syddynmelyn, Tireithin, Tŷ Coch, Tŷ Canol, Tŷ'r Delyn, Waunhir a'r Wern. Ym Mhwllygod adeiladwyd Camlas Thomas Kymer ym 1766-1769, y gyntaf yn ne Cymru. Cludwyd y glo ar dramiau o'r pyllau glo cyfagos a chariwyd hwy mewn badau gydag ychen yn eu tynnu, i'r harbwr yng Nghydweli. Ym 1869 roedd y rheilffordd wedi cymryd drosodd.

Yn y dyffryn islaw mae pentre bach Pontnewydd ac afon Gwendraeth Fawr yn llifo ar ei thaith i'r aber yng Nghydweli. Yno hefyd gwelem y trên bach yn cario glo mewn wagenni ar hyd lein y rheilffordd a chlywem yr hwter yn seinio drwy'r dyffryn i'n rhybuddio ei fod yn nesu. Ym 1866 ffurfiwyd Cwmni Rheilffordd Cwm Gwendraeth a Porth Tywyn ac erbyn 1948 roedd y rheilffordd hon yn ogystal â gweddill rheilffyrdd Prydain wedi eu cenedlaetholi. Parhaodd y gwasanaeth cludo teithwyr o 1909 hyd 1953 ond parhawyd i gario glo lawr y cwm i Gydweli tan 1996.

Ym 1980 trawsnewidiwyd yr olygfa o'r fferm, lle gynt roedd caeau gwyrddlas Ffos Las ar y gwastatir, yno bellach roedd peiriannau o bob math yn gwibio fel gwybed dros y tir, wrth iddynt ddechrau cloddio am lo. Dechreuwyd ar waith glo brig Ffos Las gan ddifa chwech o'r ffermydd er mwyn cyrraedd i lawr at y glo: ffermydd Ffos Las, Tŷ Mawr, Maes Gwilym, Allt y Sgrech, Dyffryn Aur a Gelli'r Ŵydd. Ymestynnai'r gwaith dros fil o erwau gan ffurfio ar un adeg, dwll dyfnaf Ewrop. Cynhyrchwyd tua chwe mil o dunelli o lo yr wythnos. Diwedd y ganrif ddiwetha, daeth y gwaith i ben.

Heddiw, mae'r olygfa yn dra gwahanol. Dair blynedd yn ôl, ar safle chwe chan erw, agorodd cwrs rasio ysblennydd Ffos Las a dyma'r cwrs cyntaf i'w agor o'r newydd ers pedwar ugain mlynedd. Northern Racing sy'n rheoli'r datblygiad, a Walters Group gwblhaodd y gwaith gyda chymorth Cyngor Sir Gaerfyrddin. Cynhelir rasys yma ar y gwastad, dros y clwydi, a rasys ffos a pherth.

Bellach, ers pedair blynedd, rydym fel teulu yn ôl yn fy milltir sgwâr ac yn byw o fewn tafliad carreg i Ffos Las, a chlywn sŵn yr uchelseinydd yn atseinio ar draws y cwm.

Mae'n braf bod yn ôl ym mhrydferthwch y fro.

**Delyth Dunsford**

# Drysau Agored


Drysau Agored yw dathliad mwyaf Cymru o bensaernïaeth a threftadaeth. Bob mis Medi mae Drysau Agored yn rhoi mynediad am ddim i'r cyhoedd i ystod eang o safleoedd yn cynnwys cestyll a thai hanesyddol, safleoedd treftadaeth diwydiannol, eglwysi a chapeli, ysgolion, adeiladau dinesig ac adeiladau cyfoes diddorol. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys trafodaethau, darlithoedd a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â threftadaeth a'r amgylchedd adeiledig.



Fis Medi eleni roedd 700 o ddigwyddiadau i ymweld â hwy ledled Cymru, a 76 yng Nghaerdydd. Ymhlith y rhain roedd y BBC yn Llandaf, Capel y Tabernacl yn yr Aes, Neuadd y Seiri Rhyddion, yr Eglwys Uniongred Roegaidd, Pwmp dŵr Melin Gruffudd, Eglwys Gadeiriol Llandaf, Mynwent Cathays, Ysgol Pencae Llandaf, Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, Stori Caerdydd, Synagog Diwygio Caerdydd, Y tu o'r Llen yng Nghapel Sant Teilo yn Sain Ffagan, Eglwys Santes Margaret o Antioch yn y Rhath ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf.

Cafodd ymwelwyr â Synagog Diwygio Caerdydd daith o amgylch y Synagog drafodaeth ar hanes y synagog ac Iddewiaeth, a hefyd y cyfle i glywed caneuon gan y litwrgi Iddewig wrth i'r cantor ymarfer ar gyfer y Gwyliau Iddewig oedd ar droed. Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf cafodd ymwelwyr eu tywys o amgylch yr adeilad a'r ysgol gan ddisgyblion brwdfrydig.

Ar gyfer y safleoedd/eiddo sy'n cymryd rhan gall fod nifer o fanteision, er enghraifft aelodau newydd o'r gynulleidfa, cefnogwyr neu wirfoddolwyr newydd. Os gwyddoch chi am adeilad gall agor ei drysau y flwyddyn nesa' ewch i wefan Drysau Agored: www.opendoorsdays.org.uk neu gysylltwch ag Anna Lermon, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, Tŷ Windsor, Lôn Windsor, Caerdydd, CF10 3DE, 029 2034 3336, post@civictrustwales.org

**Chwilio am**

**BLASTRWR?**

**Am amcanbris ffoniwch Rhiannon ar:**

**07859 919477**

# YSGOLION

## Ysgol Mynydd Bychan

Bydd Gemau Olympaidd Llundain 2012 yn aros yn atgof euraidd yng nghof criw o ddisgyblion blwyddyn 6 o Ysgol Mynydd Bychan wedi iddyn nhw gael cyfle i chwarae rhan bwysig yn y Gemau Pêl-droed a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Roedd ganddynt nifer o ddyletswyddau pwysig i'w cwblhau – o gludo fflagiau'r gwledydd ar y cae a sicrhau eu bod yn cael eu dal yn daclus yn ystod yr anthemau, i dywys chwaraewyr Siapan a De Corea i'r cae ar gyfer y frwydr am y Fedal Efydd.

Roedd cael sefyll ar yr un cae a sêr amryddawn a byd-enwog megis Neymar a Marcelo o Frasil a Craig Bellamy a Micah Richards o dîm Prydain yn wefr anhygoel i'r plant ac fe'u gwobrwywyd am eu gwaith gyda thocynnau i wylio'r gemau o'r eisteddle.

Diolch i bob un ohonynt am eu gwaith ac rwy'n siŵr y bydd ganddyn nhw straeon cyffrous i'w hadrodd wrth eu ffrindiau newydd yn eu hysgolion uwchradd.



*Josh Hardwick yn tywys capten Brasil, Thiago Silva, sy'n chwarae i glwb Paris Saint-Germain yn Ffrainc. Yn y llun hefyd mae Marcelo, sy'n chwarae i Real Madrid yn Sbaen, a Rafael o glwb Manchester United.*

## Ysgol Nant Caerau

Bu gweithgareddau diweddar yn yr ysgol yn gyffrous a llawn emosiwn a balchder. Cawsom dair cyngerdd wefreiddiol, 2 ohonynt o flaen rhieni a'r llall o flaen cynulleidfa gwahoddedig. Ar ddiwedd y gyngerdd rhyddhawyd 117 o falŵns gwyrdd a glas, pob balŵn yn cynrychioli pob plentyn ein hysgol.

Roedd y cyngherddau yn llwyddiannus iawn a pherfformiodd y plant yn wych. Roeddent wedi gweithio'n galed iawn a braf iawn oedd gweld eu balchder a'u hangerdd yn fyw ar y llwyfan. Elwodd y plant yn fawr o'r profiad gan ddysgu am hanes yr ardal leol, hanes ein hiaith, magu hyder a chydweithio ar brosiect mor bwysig. Ardderchog -mae pawb yn falch iawn ohonoch.

Hoffwn ddiolch i'r staff sydd wedi gweithio mor galed




yn cynhyrchu'r sioe. Yn ymchwilio i'r hanes, ysgrifennu'r sgript, addasu'r caneuon, hyfforddi'r plant i actio a chanu, canu'r piano a'r delyn, rheoli'r goleuadau, ysgrifennu'r rhaglen a chyfarwyddo'r sioe! Diolch o galon am eich gwaith caled.

Hoffwn ddiolch o galon i Owain ap Rhys, tad Gruffudd yn y Derbyn, am gyfansoddi'r englyn.

*Dŵr anwedd ddaeth i'n meddiant, yn groyw*
*O grael diwylliant*
*A'n hudo ni i glywed nant*
*Lle yfory bydd llifeiriant.*

Ynghyd â'r englyn yma mae gennym nawr anthem ysgol, sef 'Dewch gyda ni i Ysgol Nant Caerau'! Ffantastig!

Ar fore'r gyngerdd cafodd Georgia Hancock, ein disgybl hynaf, ei chyfweld yn fyw ar Radio Cymru gan Caryl Parri Jones a Dafydd Du. Roedd hi'n wych!

Hoffem hefyd ddiolch i fam Tayla Leeke, sef Emma O'Neill, am addurno dwy gacen gyda logo'r ysgol. Roedd yn gacen flasus iawn!

Llongyfarchiadau i bawb!

## Ysgol Pwll Coch

**Garddwyr Pwll Coch ar y Brig**



Mae garddwyr Pwll Coch i gyd yn wên o glust i glust.

Maen nhw wedi ennill y wobr gyntaf am Ysgolion- Gerddi Mawr am yr ail flwyddyn, dan nawdd Caerdydd yn ei Blodau. Hefyd maent wedi ennill y wobr gyntaf am Gynhwysydd Blodau Wedi Ailgylchu. Mae hyn yn dilyn eu llwyddiant gyda'r berfa (3ydd), yn sioe yr R.H.S. mis Ebrill. Da iawn i chi gyd a daliwch ati gyda'r fenter arddio newydd, efallai bydd tŷ gwydr gyda chi erbyn yr haf nesaf!

**Perfformiad Côr Ysgol Pwll Coch yn Neuadd Albert, Llundain**

Ym mis Awst cafodd côr Ysgol Pwll Coch cyfle i ganu yn Llundain. Roedden ni wedi bod yn ymarfer yn galed am wythnosau gydag Osian Rowlands a'n teimlo'n gyffrous iawn wrth deithio i Neuadd Albert. Offeren Bernstein oedd enw'r darn ac enw'r arweinydd oedd Kristjan Varvi. Roedd y lle yn anferth a'n coesau'n crynu wrth weld y gynulleidfa. Roedd y perfformiad yn wych! Dyna brofiad anhygoel wnawn ni fyth anghofio.

***Catrin Jones a Saran Dafydd Blwyddyn 6***

**Ymweld â'r Gemau Paralympaidd**

Ar ddydd Gwener y 7fed o Fedi aethon ni a Mr Lewis i weld y Gemau Paralympaidd yn Llundain. Gadawon ni'n orsaf drên am chwarter i bump yn y bore yn gyffrous dros ben. Roedd y stadiwm yn anferth a'r awyrgylch yn drydanol. Tynnon ni lawer o luniau a phrynu digon o bethau i gofio am y diwrnod! Gwelon ni ras 100m, 200m, taflu gwaywffon a'r ras 800m i athletwyr mewn cadeiriau olwyn. Roedden nhw'n anhygoel.

Diolch yn fawr i Mr Lewis am fynd â ni.

***Louis Cooksley ac Ifan Emyr Blwyddyn 6***

## Ysgol Gymraeg Coed y Gof

**Croesawu**

Mae'n ddechrau blwyddyn arall yn Ysgol Coed y Gof ac rydym eto eleni yn ffodus o groesawu aelodau newydd at ein staff. Croeso mawr i Mr Huw Darch sy'n athro newydd ym mlwyddyn 1 a'n cynorthwyon newydd, sef Miss Elliw Roberts, Miss Lianne Fletcher a Miss Rhian James.

Croeso nôl hefyd i'r Pennaeth, Mr Hayes, sy'n dychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnod o secondiad gydag ESTYN. Byddwn fel ysgol yn sicr o elwa'n fawr o'i brofiadau gwerthfawr yn arolygu ysgolion ledled Cymru.

Yn yr un modd, estynnwn groeso nôl i Miss Enfys Emlyn, Miss Charlotte Christo a Miss Natalie Owen o'u cyfnodau mamolaeth.

**Llongyfarchiadau**

Dymunwn longyfarch Miss Non Jones, a Mr John Rivers, ar eu dyweddïad diweddar. Dymunwn yn dda iawn i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol.

**Cais am wirfoddolwyr!**

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr a fuasai'n barod i rannu ychydig o'u hamser yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu mwynhad a hyder y plant wrth ddarllen.

Golygai hyn awr yn unig o'ch amser yn gwrando ar blant yn darllen, rhwng 9:15 a 10:15, naill ai ar fore Llun, Mercher neu Iau. Mae croeso i chi ddewis eich diwrnod, ac wrth gwrs, rydym yn deall y bydd rhai diwrnodau pan na fyddwch yn gallu gwneud. Bydd panad ar eich cyfer, ynghyd â chyfle i gymdeithasu â'r gwirfoddolwyr eraill. Fe fuasai eich cymorth yn amhrisiadwy wrth helpu i godi safonau a chynnig amser gwerthfawr i'r plant sgwrsio, trafod a mwynhau darllen.

Petai diddordeb gennych, yna cysylltwch â Mrs Rhian Williams, trwy ffonio 0292056 4585, neu e-bostio schooladmin@ysgolcoedygof.cardiff.sch.uk

## Ysgol y Berllan Deg

**Croeso**

Croeso i Mr Rhys Lewis a gychwynnodd gyda ni ym mis Medi fel athro Blwyddyn 3 a chroeso yn ôl i Mrs Amy Mills a Miss Dafydd.

Croeso i'r byd hefyd i Martha, Harri Llŷr, Aimee a Casi Maria a anwyd i Mrs Medi Davies, Mrs Rhian Thomas, Mrs Louise Holmes a Mr Robyn Hughes.

**Gwobrau**

Yn ystod mis Gorffennaf llwyddodd yr ysgol i ennill y Drydedd Faner Werdd ar sail eu gwaith i geisio arbed ynni ac Activemarc Cymru am ddarparu gweithgareddau Addysg Gorfforol, Chwaraeon Ysgol a Gweithgarwch Corfforol o safon uchel.

**Gweithdai Arian Banc Barclays**

Diolch yn fawr i Fanc Barclays am gynnal gweithdai ym mhob dosbarth yn yr adran iau ar sut i drin arian. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr.

**Beicio**

Cafodd pob disgybl ym Mlwyddyn 6 gyfle i gael gwersi beicio gan adran Diogelwch y Ffordd.

**Gwlad y Basg**

Croesawyd athrawon o Wlad y Basg i'r ysgol yn ystod mis Medi yn dilyn ymweliad i Dolosa, Gwlad y Basg gan 2 aelod o staff ym mis Mai. Mae'r ysgol yn rhan o brosiect sydd yn edrych ar lythrennedd driphlyg.

**Wythnos Chwedlau Chwim**

Trefnwyd gweithgareddau i bob dosbarth yn seiliedig ar enwau eu dosbarthiadau, sy'n deillio o straeon y Mabinogi, ar ddechrau tymor yr Hydref.

**Safle Adeiladu**

Aeth Blwyddyn 2 i ymweld â safle adeiladu ysgol newydd Sant Teilo fel rhan o'u gwaith ar 'Adeiladau'.

**Fferm Maes y Fron**

Unwaith eto eleni cafodd Blwyddyn 5 gyfle i aros 2 noson yn Fferm Maes y Fron yn gwneud gweithgareddau amrywiol gan gynnwys dringo a cherdded ceunentydd.

## Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

**Safle newydd**

Wedi prysurdeb ac wythnosau o waith pacio a dadbacio rydym bellach wedi setlo i mewn i'n adeilad newydd. Mae'r ysgol yn edrych yn lliwgar a deniadol iawn – diolch yn fawr i'r holl staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth baratoi'r ysgol am ddechrau blwyddyn newydd fydd yn sicr yn llawn cyffro a newidiadau!

**Staff newydd**

Croeso i athrawon newydd yr ysgol – Miss Catrin Lewis, athrawes Blwyddyn 1 a Miss Fflur Jones, athrawes Blwyddyn 5. Croeso hefyd i'n cynorthwywr dysgu newydd – Mr Sion Ellis. Dymunwn yn dda i Mr Tom Rogers sy'n ein gadael i fynychu cwrs yn y coleg.

**Cyrsiau Preswyl**

Yng nghanol bwrlwm dechrau'r flwyddyn ym Melin Gruffydd bu disgyblion blwyddyn 4 ar gwrs preswyl yn Abercraf a disgyblion blwyddyn 5 yng Nghanolfan Danywenallt. Rhaid canmol y plant i gyd am eu hagweddau a'u hymddygiad a diolch i'r staff i gyd am eu hymroddiad a chyfraniad at ymweliadau llwyddiannus. Wedi dychwelyd i'r ysgol aeth Blwyddyn 4 Mrs Rees ati i ysgrifennu cerdd am eu profiadau gwych:

**Abercraf**

**Berfau bendigedig!**

Pacio, teithio, chwilio, joio
Cyrraedd Abercraf!
Chware, helpu, siarad, gwrando
Cydweithio'n Abercraf!
Darganfod, archwilio, gwarchod a rhannu,
Dysgu yn Abercraf!
Cerdded, camu, gafael, tynnu,
Dringo yn Abercraf!
Chwerthin, mentro, gwenu, cysgu
Llwyddo yn Abercraf!

***Gan ddosbarth Bl 4 Mrs Rees***

**Arholiadau Cerddoriaeth**



Llongyfarchiadau i'r canlynol am lwyddo yn eu harholiadau offerynnol:

Ben Jones – Gradd 1 Ffliwt
Delyth Cook, Catrin Mackie, Cerys Bailey, Alaw Evans, Osian Williams – Gradd 1 Ffliwt
Ffion Dugdale – Gradd 1 Clarinet
Tomos Jones – Gradd 1 Cello.

## Ysgol Bro Eirwg

**Llongyfarchiadau**

Lansiwyd cystadleuaeth rhwng dwy ysgol gynradd yn yr ardal er mwyn dylunio plac i'w osod yng ngerddi Rhymni. Aethpwyd â phlant i'r gerddi er mwyn iddynt arsylwi ar yr hyn oedd i'w weld yn y parc ac yna fe gawson nhw gyfle i ddylunio cynllun pwrpasol. Beirniadwyd y cynlluniau a dyfarnwyd y wobr i Amelia Giles a oedd ym Mlwyddyn 6. Erbyn hyn mae cynllun Amelia wedi ei drosglwyddo i arwyddion hyfryd ac maent wedi eu lleoli yn y parc.

**Gemau Olympaidd**




Fe fuon ni'n ffodus iawn i groesawu ffrindiau i'r ysgol a oedd wedi chwarae rhan allweddol yn y Gemau Olympaidd yn Llundain yn ystod yr Haf. Bu Paul a'i gi Kimberley yn rhan o'r criw i gario'r ffagl yng Nghaerdydd, a gan fod Paul yn ewythr i Cian ym Mlwyddyn 6 cawsom gyfle i rannu ei brofiadau. Yn dilyn llwyddiant y Gemau Paralympaidd yn yr Haf, daeth Chris (Gamesmaker) i siarad â'r plant yn ystod gwasanaeth i esbonio pa mor allweddol oedd cyfraniad y criw o wirfoddolwyr wrth dywys ac arwain y cystadleuwyr a'u teuluoedd i'r gwahanol ganolfannau ar draws y ddinas.

**Chwaraeon**

Er mwyn parhau â bwrlwm y Gemau Olympaidd, rydym wedi cynnig cyfle newydd i'r plant - Clwb Rhedeg yn ystod amser cinio, Mae'r ymateb wedi bod yn wych, ac mae nifer uchel iawn o blant wedi cofrestru. Rydym mor lwcus bod gennym gyfleusterau gwych ger yr ysgol sy'n hwyluso'r trefniadau.

Llongyfarchiadau mawr i Tanisha Johnson, Blwyddyn 5 ar ennill clod uchel mewn cystadleuaeth gymnasteg. Enillodd hi dair medal aur a dwy fedal arian am wneud cyfres o symudiadau ar y llawr, y bariau uchel, y trawstiau a'r ceffyl.

# Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

Croeso nôl i dymor newydd, blwyddyn rhif 15 i Blasmawr, a mis rhif 1 i Ysgol Bro Edern – dymuniadau gorau a hir oes i'r chwaer fach newydd.

Llongyfarchiadau i fyfyrwyr, athrawon a rhieni Ysgol Plasmawr ar ganlyniadau'r disgyblion eleni:

**Safon Uwch / BTEC / BAC**

A*=10%, A*-A=52%, A*-C=87%, A*-E=100%

**UG**

A=35%, A-C=82%, A-E=97%

**TGAU / BTEC**

5+ A*-A=33%, 5+ A*-C= 77%, 5+A*-E=98%

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn enwedig i'r rhai a brofodd llwyddiant. Llongyfarchiadau i Jessica O'Brien - cyn-ddisgybl Plasmawr a gystadlodd yn y 'sit down volleyball' yn y Paralympics!

Ac yn olaf, llongyfarchiadau i Cameron Howells ac Anna Powys am eu hethol fel Prif Swyddogion yr Ysgol am eleni.

**Agoriad Swyddogol y Ganolfan Ddysgu**

Ar brynhawn Gwener, 28ain o Fedi, agorwyd y Ganolfan Ddysgu newydd gan Andrew Green o'r Llyfrgell Genedlaethol. Dyma adnodd ardderchog i'r Ysgol ac mae'r llyfrgellwyr ifanc wedi cynnig cymorth anhygoel wrth drefnu'r adnoddau a llyfrau.

**Pob lwc!**

Bydd nifer o deithiau tramor dros yr wythnosau nesaf gan gynnwys yr ymweliad bob yn ail-flwyddyn i'r UDA gan yr adran Hanes, a thaith yr Adran Dechnoleg i'r Eidal.

# Ysgol Pencae

**Drysau Agored Llandaf**

Agorwyd drysau'r ysgol i'n cyfeillion yn Llandaf fel rhan o gynllun Drysau Agored Llandaf. Aethpwyd â nhw ar daith o amgylch yr ysgol cyn mwynhau cyngerdd gan y disgyblion. Darparwyd te, coffi a bisgedi Masnach Deg ynghyd â chacennau gan Mrs Hayes iddyn nhw. Casglwyd £60 at yr elusen MacMillan fel rhan o'r fenter Bore Coffi MacMillan.

**Llangrannog**

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Langrannog ym mis Medi gan fwynhau'r profiad yn fawr. Mwynheuon nhw hefyd eu hymweliadau â Chanolfan Technoleg Amgen ym Machynlleth ac i Ddolau Cothi ym Mhumsaint hefyd. Roedd yn gyfle gwych iddynt hefyd i gwrdd â'u ffrindiau newydd o ysgolion cynradd clwstwr Plasmawr.

**Ynadon Heddwch**

Daeth Ynadon Heddwch at ddisgyblion Blwyddyn 6 er mwyn egluro'r hyn maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd yn rhinwedd eu swydd. Trawsnewidiwyd y dosbarth i fod yn llys barn gyda'r disgyblion yn chwarae rôl aelodau pwysig o'r llys. Roedd pawb ar eu hymddygiad gorau ar derfyn yr achos!

# Atgofion

Mae'n debyg bod y Genedlaethol a glaw yn hen bartneriaid; mae tipyn o dystiolaeth hanesyddol i gefnogi hyn. Felly, wrth fynd am Landŵ eleni roeddwn yn barod gyda welingtons, anorac a dillad gwrth-ddŵr. Bydd rhai yn talu £100 am wasanaeth mwd mewn spa, ond dim ond £17 yn y Genedlaethol a hynny heb dynnu'ch dillad - ar wahân i Faes B - ond stori arall yw honno.

Fues i erioed yn gystadleuwr brwd. Mentrais unwaith yn fachgen bach ar gais (?!) fy mam, ar Llefaru, ond roedd fy ngên yn brifo gormod wrth geisio ynganu ac ystumio yn y modd eisteddfodol. Felly, yr unig ffordd eleni oedd gweini mewn cerbyd yn gwerthu 'sglods a sosej' - sôn am sauna! Ar wahân i'r cyflog, wrth gwrs, roedd shifft o bedair awr y dydd am wyth niwrnod yn rhoi profiad o'r natur ddynol mewn cyfyngder a syniad ynghylch tragwyddoldeb (daearol nid nefol). Roedd y gaffer (menyw) yn mynnu mai un diodydd oedd fy nogn dyddiol. Da o beth oedd bod o fewn clyw cerddoriaeth y Maes a'r cyhoeddiadau am beth oedd i ddod gyda'r nos.

Atgofion melys sy'n aros am Faes B, ond heb lawer o fanylion. Un uchafbwynt oedd Meic Stevens yn cyflwyno 'Y Brawd Houdini'. Hefyd, cawsom gais gan Llewelyn Hopwood i fynd i'r gig nos Sadwrn lle'r oedd y pedwarawd Y Bromas yn perfformio. Sgubol! A llawer mwy. Braf iawn.

Dinbych amdani – ond bydd rhaid meddwl am ddull o ennill arian taith a thocyn heblaw gweithio yn yr uffern sglodaidd.

**Ben Palit** *(Ysgol Plasmawr)*

# Trydarfod – y Rhath ar-lein

Hoffech chi ddod i nabod siaradwyr Cymraeg eraill sy'n byw yn y Rhath? Eisiau cyfle i gymdeithasu yn Gymraeg? Mae criw o bobl yn bwriadu cwrdd yn rheolaidd, ar drydedd nos Iau bob mis, ar lawr cyntaf y Pear Tree i sgwrsio a chymdeithasu mewn awyrgylch anffurfiol.

Bydd defnyddwyr Twitter yn defnyddio hashtag #trydarfod ar gyfer y digwyddiad, ond does dim rhaid bod yn ddefnyddiwr Twitter i gyfrannu! Am ragor o fanylion cysylltwch ag iwan.evans@me.com



# Newyddion o'r Eglwysi

## Capel Ebeneser

**Cyfundeb**

Gweddi, addoliad, gwasanaeth, cymdeithas, Y Beibl. Dyma oedd testunau Sul y Cyfundeb ar 15 Gorffennaf. Ebeneser oedd yn gyfrifol am 'Y Beibl' a chyflwynwyd sgets gan Carys Mair, Cai Maxwell, Ifan Gwern Jones ar bwysigrwydd y Beibl. Diolch hefyd i Alaw Rowlands am arwain mewn gweddi.

**Barbiciw Y Mob**

Daeth tymor clwb Y Mob i ben ar 19 Gorffennaf gyda barbiciw yng ngardd Arfon a Rachel Jones. Do wir, cadwodd y glaw draw, a chafwyd noson o hwyl a sbri i gloi tymor llwyddiannus llawn profiadau a bendith. Roedd criw da wedi hel at ei gilydd i fwynhau selsig, byrgyrs a dewis da o bwdinau. Edrychir ymlaen yn fawr at dymor newydd o weithgareddau sydd newydd ddechrau fis Medi.

**Urddo er Anrhydedd**

Llongyfarchiadau i Elin Elis Jones ar gael ei hurddo i'r Orsedd eleni yn Steddfod Bro Morgannwg. Derbyniodd wisg las am ei chyfraniad i fyd Meddygaeth Iechyd Meddwl dros y blynyddoedd.

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau i'r bobol ifanc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau dros yr haf a phob dymuniad da iddynt yn ystod y flwyddyn hon.

**Ribidirês**

Ar nos Wener, 21 Medi ail-gychwynnodd y Clwb Plant Cynradd o dan yr enw Ribidirês. Bydd y clwb yn cyfarfod o 6.00 i 7.00 cyn y MOB yn y Gospel Hall, Ystum Taf bob yn ail nos Wener. Croeso cynnes iawn i bawb ym mlwyddyn 1 i 6. Am fwy o fanylion am y clwb hwn neu'r Mob anfonwch e-bost i ebeneser@btinternet.com




## Bethel, Rhiwbeina

Cafwyd cynulleidfa dda yn y Cwrdd Diolchgarwch a gynhaliwyd, fel arfer, dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch. T. Evan Morgan. Cyfrannwyd y casgliad eleni i gronfa plant Arch Noa.

Cydymdeimlir yn fawr â Mr Ken Williams, Rhiwbeina, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Gage ac Osian Jenaer ar eu llwyddiant yn yr arholiadau a phob dymuniad da i'r ddau yn y dyfodol.

Croesawyd Hafwen a Gwyndaf Roberts i'n plith, y ddau wedi symud i Bontypridd o Lanfair Caereinion.

## Eglwys y Crwys

**Cyfarchion**

Da gweld bod Mrs Adelina Evans yn symud yn dda ar ôl ei thriniaeth – edrychwn ymlaen at y daith gerdded nesaf!

Dymuniadau gorau i Mr Garwyn Davies a Mr Gareth Edwards sy'n derbyn triniaethau ar hyn o bryd. Gwellhad buan iddynt.

Dymunir yn dda hefyd i Miss Helen Williams sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Llandochau.

Da gweld bod Mr Jonathan Shapey yn gwella wedi'r ddamwain ar ei feic yn Llundain yn ddiweddar. Pob dymuniad da i ti Jonathan a gobeithio y byddi yn ôl wrth dy waith fel llawfeddyg yn fuan.

Rydym yn falch hefyd bod Charlotte, wyres y Dr John a Non Henry Jones yn gwella wedi'i thriniaeth yn Llundain. Ein cofion cynhesaf ati.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Mrs Ros Williams ar ddod yn fam-gu unwaith eto. Ganwyd Olwen Lois i Aled a Llinos yng Nghaerfyrddin; chwaer fach i Miriam.

Llongyfarchiadau i Ceri Davies a Carole Prat ar eu priodas yn Toulouse. Mae Ceri yn fab i Garwyn a Non Davies. Maent yn ymgartrefu ym Mharis.

**Y Cylch Cymorth**

Cynhaliodd y Cylch Cymorth stondin 'Cynnyrch Cartref' yn y festri yn dilyn oedfa'r bore yn ystod mis Medi gyda'r elw yn mynd tuag at waith y Cylch yn cefnogi elusennau lleol. Roedd yn fore hynod lwyddiannus yn ariannol a chymdeithasol.

**Y Gorlan**

Bydd aelodau'r Gorlan yn ymweld â lleoliadau diddorol ym Mro Morgannwg o dan arweiniad yr Athro Dr John Gwynfor Jones dydd Mercher, Hydref 17eg.

**Y Gymdeithas**

Bydd y Gymdeithas yn mynd ar wibdaith i Eglwys Gadeiriol Wells a Chanolfan Siopa Street ar Hydref 20fed. Edrychir ymlaen yn fawr at y daith o dan arweiniad yr Athro Dr John Gwynfor Jones.

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn ddiolchgar am ddau aelod a fu farw dros y misoedd diwethaf: Hywel Jones, a fu farw ar 4 Gorffennaf a Katherine Lloyd Roberts, a fu farw ar 31 Gorffennaf. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu.

**Aelodau newydd**

Hyfrydwch oedd croesawu Margaret (Williams) a Geraint Jones (Llandaf) yn aelodau atom ym mis Gorffennaf.

**Priodas**

Dymunwn yn dda i Heledd (Morris) ac Elgan Davies yn dilyn eu priodas yn Minny Street ar 4 Awst.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Gwyn Carannog Tywyn, mab i Kathryn a Carwyn a brawd i Heledd; ac i Aled Elias Ieuan Widgery a Gwion Llŷr Ieuan Widgery, meibion i Rhian a Kevin a brodyr i Elis a Mali. Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

**Ennill tlws**

Llongyfarchiadau cynnes i aelodau PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) ar ennill gwobr uwchradd Tlws Cyfundeb Lerpwl am lunio deuddeg neges yn arddull Trydar y byddai Dewi Sant wedi'u danfon i Gymry heddiw ar sail ei neges wreiddiol.

**Deng mlynedd o arweiniad a gweinidogaeth**

Bob blwyddyn bydd y trydydd Sul ym Mis Medi yn gyfle i ni fel eglwys ailgydio o ddifrif yn ein gwaith a'n cenhadaeth wedi misoedd cymharol dawel yr haf. Eleni roedd arwyddocâd arbennig i Ŵyl Flynyddol yr Eglwys ar 16 Medi gan ein bod yn dathlu 10 mlynedd o fod dan arweiniad a gweinidogaeth y Parchedig Owain Llŷr Evans. Cafwyd cyfle ar ôl yr oedfa foreol, dros gymdeithas, cwpaned o de a theisen ben-blwydd, i ddatgan ein gwerthfawrogiad o weinidogaeth ddisglair Owain, ac i gyflwyno anrheg iddo fel arwydd o'r diolch hwnnw. Gwyddom am wreiddioldeb ei syniadau, dyfnder ei wybodaeth ac ehanger ei ddiddordebau; sylweddolwn hefyd ei bwyslais arbennig ar fod yn gynhwysol a phrofwn drwy'r amser ei ofal bugeiliol a'i gonsyrn dros eraill. Diolch o galon, Owain.

Am holl newyddion Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Salem, Treganna

Croeso i chi ymuno a ni ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd, am 10.30 a 6 ar y Sul, ac yn ein gweithgareddau wythnosol a misol.

**Pob Hwyl!**

I aelodau a ffrindiau Salem sy'n mynd i goleg neu brifysgol am y tro cynta'r mis hwn. Pob llwyddiant a mwynhad i chi gyd.

**Clwb Llyfrau**

Cawsom noson yn trafod Blasu gan Manon Steffan Ross ar 4 Medi.

**Clwb Brecwast**

Cyfarfu'r clwb brecwast ar 5 a 19 Medi i rieni a phlant o dan oed meithrin. Croeso i chi ymuno â ni am 9.45 am yn ail wythnos, cyfle am baned a chlonc.

**Adran yr Urdd**

Daeth Mr Urdd i'r disgo i ddechrau rhaglen y flwyddyn ar 13 Medi. Bydd yr adran yn cwrdd bob pythefnos y tymor hwn - croeso i blant oed cynradd rhwng 6-7 ar nosweithiau Iau.

**Clwb Coffi**

Cyfarfu'r clwb coffi yn ystafell Edwin 14 Medi. Croeso i chi gwrdd am gwmnïaeth a phaned.

**Grŵp Canu**

Cyfarfu'r grŵp canu o dan arweinyddiaeth Geraint Cynan wrth ail gychwyn am dymor arall.

**Clwb Pobl Ifanc**

Daeth y clwb at ei gilydd nos Wener 21 Medi am sglods a DVD i ddechrau'r tymor. Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer y tymor!

**Cylch Trafod Beiblaidd**

Cyfarfu'r clwb trafod ar 26 Medi yn ystafell Edwin.

## Tabernacl

**Cyflwyniad Duw'r Enfys yn Soar, Ffrwd Amos**

Ddiwedd yr Haf, gwerthfawrogwyd cyflwyniad yn enw'r rhan fwyaf o eglwysi Cymanfa Dwyrain Morgannwg o waith Verina Matthews, 'Duw'r Enfys'. Marc Jon Williams a ysgogodd y gwaith ac fe deithiodd o gwmpas y canolfannau er mwyn dysgu'r darnau priodol i'r grwpiau amrywiol. Bu Verina'n dyheu am gael clywed y gwaith ond ni chafodd fyw i wireddu hynny. Bydd y gwaith yn dystiolaeth o'i chrefft gerddorol a'i ffydd yn Nuw.

**Cydymdeimlo**

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Olga Davies, Rhiwbeina. Cydymdeimlwn gyda'i gŵr Conway, ei mab Rhys, a'i deulu yn yr Amerig, ac yn naturiol gyda'i merch Siân, ynghyd â Rhodri, Owain, Sara a Hannah. Roedd wrth reddf yn gadarnhaol a llawen, a braint oedd ei hadnabod.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Ar ôl blynyddoedd o baratoi, hedfanodd yr wythnos gyda'i phrysurdeb arferol. Bu'n gyfnod prysur a blinedig i'r sawl a dderbyniodd swyddi arbennig yn sicrhau wythnos lwyddiannus iawn. O blith teulu'r Tabernacl, cafodd Eirlys Pritchard Jones, Euros Rhys Evans, Robert Nicholls a Hywel Jones gyfrifoldebau amlwg yn ystod yr wythnos ac ymhyfrydwn yn eu cyfraniadau gloyw.

**Ysgol Sul**

Edrychwyd ymlaen at weld yr Ysgol Sul yn ailgychwyn yn ystod y mis. Diolchwn i Rhian Williams a Mai Giles am eu cyfraniad i fwrlwm y gwaith hwn cyn yr haf, a gwyddom y bydd Lisa Tiplady yn bwrw iddi wrth ymgymryd â chyfrifoldebau'r arolygwr. Mae tîm profiadol o athrawon yn edrych ymlaen at arwain yr ifanc i ddeall mwy am yr Efengyl.

**Bore Coffi**

Diolch i Margaret Mostyn Jones am ei chroeso i'r cwmni yn ystod mis Awst. Derbyniwyd gwahoddiad gan Helen a Rhys Jones ar fore Mercher Medi 12fed a diolch iddyn nhw hefyd.

## Eglwys Dewi Sant

**Cydymdeimlo**

Tristwch i bawb oedd clywed am farwolaeth Selwyn Jones un o ffyddloniaid yr eglwys ac estynnwn ein cydymdeimlad â Margaret, Judith, Rhodri a'u teuluoedd yn eu colled. Roedd Selwyn wedi cyflawni nifer o swyddi yn yr eglwys ac roedd hefyd yn gyn-warden a mawr fydd y bwlch ar ei ôl. Collodd ei olwg chwe blynedd yn ôl ond ni chollodd ei hiwmor tawel. Erys atgofion melys ohono yma ac yn ein gefail eglwys yn yr Almaen.

**Croesawu**

Estynnwn groeso mawr a dymunwn yn dda i deuluoedd y canlynol a gafodd eu bedyddio yn ddiweddar: Gwyion a Betsan Rhisiart, Ela Grug Seaman, Ifan Lewis Jones ac Elen King.


**Llongyfarchiadau**

- i Owen a Cas Jones ar eu priodas a dymuniadau gorau wrth iddynt setlo'n ôl i fywyd yn Llandaf.

**Datganiad organ**

Ar Fedi'r 12fed cynhaliwyd yr olaf yn y gyfres o ddatganiadau awr ginio i ddathlu 125 mlwyddiant yr organ. Croesawyd Peter King Cyfarwyddwr Cerdd Abaty Caerfaddon a chafwyd perfformiad gwefreiddiol ganddo -clo perffaith i'r dathliad arbennig hwn.

# DINESAIR Rhif 126



## Ar Draws

1. 'Ceisiwch ----- ----- deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef' (Mathew) (2, 6)
5. Gweld rheswm mewn llinach o sylwedd (4)
8. Dechreuodd ddeall ar ddechrau'r dydd ((8)
9. Yn eofn bum bron a hyrwyddo (4)
11. Nôd hanner dirmygus yw bod yn hardd (7)
13. Creu bardd allan o awdl (5)
14. 'Esmwyth tlodi ---- ---- ----
    Blin yw cyfoeth i'r ynfydion' (tradd) (3, 1, 7)
18. Ymaelodi mewn man dymunol (5)
19. Mae'n dal y pwdin reis ato (7)
21. Cael cryfder o hen erthygl (4)
22. Yn hala y gwan i newid cyn Rio (2, 6)
24. Mae'n hyll mewn sawl ffordd (4)
25. Perthynas cynifer o gwmpas diwedd Mawrth (8)

## I Lawr

1. Cymell allan o'r cysgod cnewyllyn yr egin (6)
2. Trallod 50 truan (5)
3. 'Cofiais am ---- ----
   Pan losgai Rhufain gynt' (IDH) (4, 6)
4. Addunedu gorffen bwyta bwydydd bro (3)
6. Lori wych yn troi a throi (7)
7. Ystum o groeso yn cynnwys y bol (6)
10. Gwerthwn wyn yn prancio fel ateb i'r drwg (10)
12. Prynu neu pasio heibio? (5)
15. Mae Ruth ar ôl y cyffro yn rhyfeddol (7)
16. Cefais yn fyr gael ynni di-ddiwedd yn wresog (6)
17. 'Maent yn dwedyd y ffordd yma
    Na does dim ---- ---- â'r eira' (tradd) (3, 3)
20. Pen yr Eglwys mewn bara digonedd (5)
23. Tanwydd o fewn tanwydd (3)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Tachwedd.

**Enillydd Croesair Rhif 124 -**

**James Dowden, Penylan, Caerdydd**

**Atebion Rhif 124**

**Ar Draws** – 1. Difancoll; 6. Glan; 8. Poenus; 9. Sgerti; 10. Gormodiaith; 12. Cawdel; 14. Cerrig; 15. Gwladgarwch; 19. Pentwr; 20. Diadell; 21. Adio; 22. Segurdod.

**I Lawr** – 1. Isop; 3. Annog; 4. Costrel; 5. Llesio; 6. Gweddiwr; 7. Arteithio; 11. Dadwneud; 13. Drachtio; 14. Caredig; 16. Gwres; 17. Chwaer; 18. Heno.

# Eglwys Efengylaidd Cymraeg Caerdydd

### Clwb Plant

Wedi ychydig o seibiant dros yr Haf mae wedi bod yn wych cael ail-ddechrau ein clybiau i bobl ifanc yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r clwb i blant ysgol gynradd bellach yn cwrdd mewn campfa yn Ysgol Gyfun Glantaf rhwng 17:30 a 18:30 ar nos Lun – mae'r stafell newydd yn rhoi hen ddigon o le i bob math o weithgareddau! Does dim newid i drefniadau'r clwb i bobl ifainc oed ysgol uwchradd, sydd yn parhau i gwrdd yn ein hadeilad ar gornel Harriet Steet yn y Rhath ar nos Wener am 19:00.

### Cyfarfod Dysgwyr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar fore Sadwrn yr 22ain o Fedi, pryd y rhannodd Wyn James ychydig o'i brofiad yn y Wladfa – ac yntau ond newydd gyrraedd yn ôl i Gymru oddi yno! Os ydych chi'n chwilio am gyfle i ymarfer eich Cymraeg, cofiwch fod bob amser groeso ichi ymuno â ni. Mae mwy o fanylion ar ein gwefan (www.cwmpawd.org), neu dewch heibio'r Eglwys i bigo lan amserlen lawn.

### Genedigaeth

Rydyn ni fel Eglwys yn llawenhau yn fawr iawn gyda Dewi a Leri George ar enedigaeth eu pedwerydd plentyn. Ganwyd Dyfan Arthur George am 04:30 ar 7 Medi, ac mae'n deg dweud bod Rhodri, Bedwyr a Gwennan wedi dotio ar eu brawd bach newydd.

### Dyddiad i'w nodi

Rydyn ni'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer ein clwb gwyliau nesaf, fydd yn cael ei gynnal yn ystod hanner tymor yr Hydref. Croeso mawr i unrhyw blant oedran cynradd i ymuno â ni yn y capel rhwng 10:00 a 11:55 ar 29 a 30 Hydref. Gallwch ddisgwyl pob math o hwyl gan gynnwys gemau, straeon, crefftau a chanu. Dewch yn llu!

# Calendr y Dinesydd • Hydref-Tachwedd

**Mercher, 10 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cwis Creiriau dan ofal Phillip Harvard (Y Bont-faen), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 11 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwesteiwraig: Ann Clwyd. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Iau, 11 Hydref**
Cymdeithas y Tabernacl. Cwrdd Diolchgarwch dan ofal y Parch. Denzil John, yn y Tabernacl, Yr Ais, am 6.30pm.

**Sadwrn, 13 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais. Datganiad Organ gan Michael Charnell-White, am 12.30pm. Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 15 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Celloedd Tanwydd.' Darlith gan Guto Owen (Cwmni Ynni Glân), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 16 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith i Lancaeach Fawr. Yn gadael y Deri am 1.30pm.

**Gwener, 19 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Prifardd Alan Llwyd ar y testun 'Kate a Bob: Llunio Cofiannau Kate Roberts ac R. Williams Parry', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 19 Hydref**
Dafydd Iwan: Cana dy Gân. Noson sy'n rhan o daith i gofnodi 50 mlynedd o berfformio gan Dafydd Iwan, yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm. Manylion pellach: www.sainwales.com; 01286-831111; ellen@sainwales.com.

**Sadwrn, 20 Hydref**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs am 11.00am. gan Dr Phil Ellis am Wallasey a'r Glannau. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 20 Hydref**
Gêm rygbi. Cwins Caerdydd v Pentyrch. Adran 3 De-Ddwyrain. C.G. 2.30pm. Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.

**Sadwrn, 20 Hydref**
Clwb Rygbi Cymry Caerdydd. Gêm yn erbyn Ystum Taf ar Gaeau Llandaf, Pontcanna, am 2.30pm, a chroeso i bawb yn yr Halfway ar ôl y gêm.

**Sul, 21 Hydref – Mawrth, 23 Hydref**
Cwmni De Oscuro a Chanolfan Mileniwm Cymru yn cyflwyno 'Gaza/Blaenannerch', darn o theatr ddawns ddwyieithog gan Eddie Ladd a Judith Roberts, yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm. Tocynnau: 029-2063-6464.

**Mawrth, 23 Hydref**
Cymdeithas y Tabernacl. 'Bro fy Mebyd' gyda Elvira Griffiths, Gwenllian Evans a Dafydd Williams, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mawrth, 23 Hydref**
Y jasband, Burum, a'r chwaraewr ffliwt o Lydaw, Jean-Michel Veillon, yn perfformio yn Dempsey's, ger Castell Caerdydd.

**Mercher, 24 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad â Pharc Howard, Llanelli.

**Gwener, 2 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. 'Yncl Tom a Syr Tomos: Agweddau ar Syr T. H. Parry-Williams' gan y Prifardd Emyr Lewis, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Llun, 5 Tachwedd – Sadwrn, 17 Tachwedd**
Bydd arddangosfa gelf o ddiddordeb Cymreig yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd ar yr Ais. Mae'r teitlau yn gynnwys 'Storm yr Ynys', 'Llyn Gwynant' a 'Gogarth'.

**Mawrth, 6 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni'r actor Gwyn Elfyn, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mercher, 7 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Datganiad Cerddorol gan Joy Cornock (soprano) a Rhiannon Lewis (piano), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm. (Diolch i 'Live Music Now'.)

**Mercher, 7 Tachwedd**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 8 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs ar y testun 'Crefydd mewn Ysgol' gan John Hayes, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm.

**Gwener, 9 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd ar y cyd â Chymdeithas Carnhuanawc, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif westai: Y Barnwr Phil Richards. Manylion pellach gan Glyn Hughes (glyn@clwb.net).

**Gwener, 9 Tachwedd – Sadwrn, 10 Tachwedd**
Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno ' "Un Bach Arall Eto": Sioe Glybiau Bara Caws' gan Twm Miall, yng Nghanolfan Chapter. Tocynnau: 029-2030-4400. Anaddas i rai dan 18 mlwydd oed.

**Mawrth, 13 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. 'Y Taflu Allan.' Yr Athro John Gwynfor Jones yn olrhain hanes dechreuadau achos y Tabernacl, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Tachwedd**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Llŷr Dunsford am ei fusnes *charcuterie*, a chyfle i wneud selsig, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Gwener, 16 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Guto Prys ap Gwynfor ar y testun 'Henry Richard (1812–88): Yr Apostol Heddwch a'r Aelod dros Gymru', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm.

**Sadwrn, 17 Tachwedd**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs am 11.00am. gan Lynne Davies am Lydaw. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# CLWB LLYFRAU MERCHED Y WAWR



Wedi seibiant dros yr haf cwrddodd Clwb Llyfrau Merched y Wawr, Cangen Bro Radur yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd. O dan arweiniad Eirlys Davies mae'r cylch wedi mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn Ionawr 2011. Trafodwyd 'Yr Erlid' gan Heini Gruffudd ym mis Medi a buddiol oedd clywed ymatebion amrywiol a diddorol.

Cytunwyd mor bwysig oedd hi i un o feibion Kate Bosse Griffiths fynd ati i ymchwilio a didoli llythyrau a dogfennau er mwyn i ni gael cofnod o'i bywyd yng Nghymru - y garwriaeth gyda Gwyn Griffiths, magu dau fab, cychwyn llenydda yng Nghymru a sefydlu Cylch Cadwgan yn y Rhondda. Teimlai pawb bod hanes yr erlid fu ar ei theulu gan y Natsïaid yn Yr Almaen yn un dirdynnol.

Yn y cyfarfod nesa byddwn yn trafod 'Blasu' gan Manon Steffan Ros ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Carole Morgans o staff y llyfrgell am sicrhau copïau a lle addas a chroeso i ni ar y trydydd dydd Mawrth bob mis.

# Merched y Wawr Cangen Caerdydd

Buom yn croesawu aelodau newydd yn noson gyntaf y tymor hwn ar 11 Medi ac ychwanegwyd at y gynulleidfa gan "grŵpis" Eleri Rogers, ein siaradwraig wadd, o gangen y Bont Faen. Daeth atom i sôn am Dribannau Morgannwg.

Roedd gan Eleri ddau lyfr gwerthfawr oedd yn eiddo i'w thad-cu i'w dangos i ni. Yn gyntaf, hen argraffiad o waith y Ficer Rhys Pritchard, Cannwyll y Cymry. Dangosodd Eleri i ni mor debyg yw sawl un o benillion y Ficer enwog i'r tribannau. Yn ail, Trafodion Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr, 1885. Yn hwnnw mae'r casgliad cyntaf oll o Dribannau Morgannwg, a enillodd y wobr gyntaf i Cadrawd, gof pentre Llangynwyd, a chasglwr brwd. The Folklore of Glamorgan oedd y testun a roddwyd i'r cystadleuwyr.

Yn y tribannau hyn, a genid, ac sydd, meddai Eleri, yn fwy Cymreig na limrig, cawn hanes y Fro o safbwynt y werin amaethyddol a ddefnyddiai ychen i droi'r tir tan 1875. Roedd y gallu i ganu yn rhan o ddisgrifiad swydd y cathreuwr, a oedd yn gyrru'r ychen, am fod canu yn sbardun i'r ychen weithio'n well. Yn wir, deuai pobl o bell i wrando ar y canu pan fyddai'n amser aredig â dau dîm o ychen yn y cae. O wrando ar y tribannau cawsom gipolwg ar dafodiaith, byd natur, ffordd o fyw, rhagolygon tywydd, sarhad ar ferched, afiechyd, bwydydd, enwau lleoedd a brogarwch. Dyma un o dribannau Iolo Morgannwg:

*Mi wela'r mor yn amlwg*
*Mi wela Fro Morgannwg*
*Pan fwyf yn hon a'm bwthyn bach*
*Mi fyddaf iach fy nghalon.*

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Ar hyn o bryd rwy'n edrych ymlaen at ein cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd; ond erbyn i chi darllen hwn byddaf yn edrych yn ôl ar ginio a sgwrs ddifyr yng nghwmni Kay Holder. Mae Kay yn byw yn y Fro ac yn diwtor Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg - dim ond yn 2008 y dechreuodd ddysgu Cymraeg ac erbyn 2011 roedd hi wedi ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn.

Nos Wener, 9 Tachwedd, byddwn ni'n cyd-gyfarfod gyda Chymdeithas Carnhuanawc, ein prif westai fydd Y Barnwr Phil Richards. Wedyn ar nos Lun, 3 Rhagfyr rydym yn disgwyl Haydn Denman i fod gyda ni yng Ngwesty Churchills. Gobeithir gweld rhan fach o waith camera Haydn, sydd wedi gweithio rownd y byd ac wedi ennill gwobr BAFTA Cymru ar ddau achlysur.

Os ydych eisiau mwy o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd Tony Couch trwy e-bost, ajcouch@yahoo.co.uk

# CHWARAEON

## Dechrau da i dymor CRICC

Chwaraewyd gêmau rygbi cystadleuol cyntaf CRICC ar Fedi'r 16eg. Bu dan 8, 9 a 10 i ffwrdd yn Ystum Taf a chwaraeodd tîm dan 14 gartref yn erbyn yr un clwb. 'Roedd dan 12 yn chwarae gartref hefyd ond yn erbyn Ystrad Rhondda. ENNILL oedd hanes POB oedran a gobeithiwn weld y llwyddiant yn parhau drwy gydol y tymor.



*Jamie Roberts*

Os oeddech yn gwylio gêm y Dreigiau yn erbyn y Gleision ar S4C yna fe fyddech wedi gweld Jamie Roberts a Rhys Patchell, cyn aelodau CRICC, yn gwisgo'u crysau glas. Braf gweld fod Jamie wedi gwella o'i anaf a Rhys yn cael ei ddewis yn "Seren y Gêm" yn ei gêm lawn gyntaf i ranbarth y Gleision. Gwnaed y sylw hefyd fod Rhys yn rhoi o'i amser yn gyson i helpu hyfforddi carfan dan 11 CRICC.



*Rhys Patchell*

## CLWB CYMRIC

Yn dilyn dyrchafiad hanesyddol y tymor diwethaf, mae Clwb Cymric wedi dechrau'r tymor newydd yn dda yn ail adran Cynghrair Amatur De Cymru. Wedi ennill pump o'r chwe gêm hyd yn hyn, mae Cymric yn eistedd ar frig y tabl, er bod nifer o'r gemau wedi dangos bod digon o waith caled yn wynebu'r tîm dros weddill y tymor. Yr uchafbwyntiau hyd yma fu curo Hirwaun Welfare 5-1 yn y gêm agoriadol ym mis Awst, a hefyd fuddugoliaeth 4-2 oddi cartref yn erbyn tîm cryf Seintiau Merthyr.

Braf hefyd yw gweld fod yr ail dîm wedi cael y dechrau gorau i'r tymor ers sawl blwyddyn, yn ennill dwy a chael un gêm gyfartal o'u tair gêm gyntaf. Mae'r rheolwr Mei Tomos wedi croesawu aelod newydd i'r tîm hyfforddi, sef Rob Gaffey, sydd wedi bod yn chwarae yng nghanol cae i'r ail dîm ers sawl blwyddyn.

Mae'r tîm dan 18, Clwb Ieuenctid Cymric, dan ofalaeth y rheolwr newydd Owain Llŷr, eto i chwarae gêm yng nghynghrair Ieuenctid De Cymru. Collodd y tîm yn erbyn Trelewis Welfare yng nghwpan Ieuenctid Cymru ond curo Thornhill yng nghwpan De Cymru. Mae digon o addewid yn y tîm, gyda'r blaenwr Connor Davies yn denu sylw.

Mae gemau cartref y tîm cyntaf yn cael eu chwarae ar gae Cwrt-yr-Ala yn ardal Trelai'r ddinas (côd post CF5 5QT), ac mae rhestr gemau'r holl dimau, ynghyd â mwy o wybodaeth, i'w cael ar wefan y clwb, www.clwbcymric.com neu drwy Trydar @clwbcymric



*Emyr Huws, ymosodwr Cymric yn ceisio mynd heibio'i ddyn*

## Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg



Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Trwy gydol yr wythnos, fe gynigai'r stondin ffrwythau am ddim er mwyn hybu iechyd da. Fe ddaeth timau o'r Bwrdd mewn gofal plant a gofal dannedd i siarad gyda'r Eisteddfodwyr y pwysigrwydd mewn bwydo o'r fron ac edrych ar ôl eich dannedd. Ar Ddydd Mawrth, fe ymwelwyd y stondin gan Gwenda Thomas AM, Dirprwy Gweinidog Iechyd, i fwynhau perfformiad gan Gôr Plant Ysgol Berllan Deg.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Mae'r Gymdeithas yn ugain oed eleni, ac i ddechrau'r tymor newydd o gyfarfodydd daeth Wil Morus Jones i annerch y Gymdeithas am Bangla Cymru, elusen sy'n trin plant yn Bangladesh sydd hefo hollt yn eu gwefusau.